# Creu clai

## Cynhwysion

2 gwpan o bowdr soda

1 cwpan o starts ŷd

1½ cwpan o ddŵr

## Dull

1. Cymysgwch y powdr soda a’r starts ŷd mewn sosban. Ychwanegwch y dŵr a chymysgwch yn drwyadl.
2. Gosodwch y sosban ar wres canolig, cymysgwch drwy’r amser am 10 i 15 munud nes bod y clai yn dechrau ffurfio. Tynnwch y sosban o’r gwres a pharhewch nes bod y cymysgedd yn ludiog ond fel toes meddal.
3. Gadwech i’r toes oeri.
4. Gosodwch y toes ar arwynebedd gydag ychydig o’r starts ŷd. Tyliniwch y toes gan ychwanegu ychydig bach o starts ŷd nes bod y clai yn llyfn.
5. Cadwch y toes mewn pecyn plastig a’i rhoi mewn twb heb aer nes eich bod yn barod i’w ddefnyddio.
6. Ewch ati i greu eich crochenwaith a’i adael i sychu. Gall hwn gymryd hyd at dridiau.







